



Etholiad Cyffredinol 2015

Llythyr at Gatholigion yng Nghymru a Lloegr gan eu Hesgobion

“... ar sail tosturiaethau Duw ... bydded ichwi gael eich trawsffurfio trwy adnewyddu eich meddwl, er mwyn ichwi allu canfod beth yw ei ewylllys, beth sy'n dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg ef.” **(Rhufeiniaid 12:1-2)**

Annwyl Frodyr a Chwiorydd yn Iesu Grist,

Mae'r Efengyl yn radical a heriol. Dyma neges achubol Iesu Grist. Mae'n ffordd o fyw. Mae'n ein dysgu ni i werthfawrogi pob unigolyn: y plentyn bregus y tu mewn i'r groth; y rhiant sy'n cael trafferth dygymod â phwysau bywyd teuluol; yr unigolyn sy'n ymdrechu i drechu tloedi; yr athro sy'n ysbrydoli myfyrwyr i chwilio am y gwirionedd; y dieithryn sy'n dianc rhag trais ac erledigaeth yn eu mamwlad; y carcharor yn ei gell yn chwilio am achubiaeth; y plentyn mewn gwlad bell sy'n mynnu hawl i gael dyfodol; a'r unigolyn oedrannus bregus sydd angen gofal ac yn wynebu ffin marwolaeth.

Fel Catholigion, rydym yn cael ein galw i weithio dros fyd a luniwyd gan Efengyl Iesu Grist. Mae'r Efengyl yn datgan trugaredd Duw ac yn ein gwahodd yn ddiysgog i garu Duw a'n cymydog. Mae ein perthynas gyda Duw yn arwain at yr awydd i adeiladu byd lle mai parch, urddas, cydraddoldeb, cyfiawnder, a heddwch yw'r hyn sy'n sylfaenol bwysig i ni.

Mae'r Pab Ffransis yn dweud wrthym ein bod yn 'ddisgyblion cenhadol' sy'n dystion i drugaredd Crist drwy ffyddlondeb ein bywydau a'r byd rydym yn dymuno ei adeiladu. Yng ngoleuni'r Efengyl gallwn fod yn negeswyr gobaith wrth i ni herio'r ymgeiswyr gwleidyddol ynghylch y polisiau maen nhw'n dymuno eu gweithredu a'r rhesymau dros hynny.

Yn yr Etholiad Cyffredinol hwn gofynnir i ni feddwl am y math o gymdeithas yr ydym eisiau ei gweld yma gartref a thramor. Mater i chi yn unig yw dros bwy y byddwch yn pleidleisio. Ein nod yw awgrymu sut byddwch yn ystyried y cwestiwn pwysig hwn ym mis Mai 2015 ac awgrymu rhai materion allweddol ar gyfer eich myfyrdodau wrth i chi wneud eich penderfyniad eich hunan.

Yn anaml, os o gwbl, y dylai pleidleisio mewn etholiad cyffredinol fod yn seiliedig ar un mater. Mae etholiadau yn cynnwys amrywiaeth eang o faterion, gyda rhai heb amheuaeth yn fwy canolog nag eraill, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag urddas a gwerth bywyd dynol a llewyrch dynol. Yn y llythyr hwn, rydym yn tynnu sylw at rai materion pwysig - ond nid yr unig rai. Ym mhob achos rydym yn awgrymu cwestiwn y gallech ddymuno ei gadw mewn cof.



Parchu bywyd

Mae bodau dynol yn cael eu creu ar lun a delw Duw. Mae pob unigolyn yn bwysig a sylfaen dysgeidiaeth Gatholig yw'r parch tuag at fywyd dynol o genhedlu hyd farwolaeth naturiol. Rydym yn cefnogi polisiau sy'n amddiffyn yr hawl sylfaenol i fywyd dynol. Mae'r plentyn heb ei eni yn fregus a diamddiffyn ac, yn drasig, yn ein cymdeithas yn aml yn ddiodefwr diniwed erthyliaid. Rydym yn gwrthwynebu galwadau i gyflwyno hunanladdiad wedi ei gynorthwyo neu ewthanasia. Rydym yn annog gwell cymorth i ofalwyr a rhagor o ofal lliniarol o ansawdd uchel a Gwasanaeth Iechyd Gwladol cadarn y gall pawb ohonom ddibynnu arno. Mae Tŷ'r Arglwyddi wedi bod yn ystyried Mesur i gyfreithloni hunanladdiad wedi ei gynorthwyo, ac mae'n debygol y bydd ymdrechion o'r newydd gan rai yn y Senedd nesaf i basio deddfwriaeth o'r fath. **Ymhle mae'r ymgeiswyr yn eich etholaeth yn sefyll ar hunanladdiad wedi ei gynorthwyo, ewthanasia, erthylu a materion eraill yn gysylltiedig â bywyd?**

Cefnogi priodasau a bywyd teuluol; lliniaru tlodi

Y ddealltwriaeth Gristnogol o briodas, a sefydlwyd ar berthynas gariadus a ffyddlon rhwng dyn a dynes, yw sylfaen cymdeithas. Mae'n darparu sefydlogrwydd ar gyfer meithrin ac addysgu plant. Heddiw, mae teuluoedd yn fwy amrywiol a bregus nag yr oedden nhw, ac mae llawer o deuluoedd o bob math lle ceir cariad ac ymrwymiad. Mae'r gymdeithas angen teuluoedd da a chryf sy'n ymroddedig i les eu plant. Dylai ymrwymiad i gefnogi'r teulu fod wrth galon bywyd cymdeithasol a gwleidyddol. **A yw eich ymgeiswyr wedi ymrwmo i gefnogi priodas a bywyd teuluol?**

Mae llawer o deuluoedd yn ein cymunedau yn fregus yn ariannol ac yn ei chael yn anodd cael dau ben llinyn ynghyd; mae costau tai a byw yn uchel. Nid yw llawer o bobl yn cael cyflog byw i'w cynnal nhw a'u teuluoedd. Mae gormod yn gorfod troi at y wladwriaeth am incwm ychwanegol ac at gymorth gwirfoddol allanol fel banciau bwyd. Dylai polisiau'r Llywodraeth gael eu hasesu ar y ffyrdd maen nhw'n effeithio ar y rhai sydd fwyaf mewn angen, gan gynnwys y rhai sy'n ddigartref neu eisiau bwyd, a sut maen nhw'n cefnogi ac yn cryfhau'r teulu a'i allu i ffynnu. **Ble mae eich ymgeiswyr yn sefyll ar helpu'r bobl dlotaf a mwyaf bregus yn y Deyrnas Unedig yn uniongyrchol, a hefyd eu helpu i drawsnewid eu bywydau?**

Addysgu er lles pawb

Mae darparu addysg dda yn hanfodol i ddyfodol y gymdeithas. Rydym eisiau ysgolion rhagorol lle nad yw llwyddiant yn seiliedig ar dablau cynghrair yn unig, ond ar sut mae potensial llawn pob plentyn yn cael ei ddatblygu. Mae ysgolion a cholegau Catholig yn ceisio datblygu i'w llawn botensial y doniau a roddodd Duw i bob plentyn. Mae hyn yn cynnwys dimensiwn ysbrydol bywyd, yr ydym yn ei fyw fel ffrindiau i Iesu Grist. Mae ysgolion Catholig yn gwasanaethu dros 845,000 o blant yng Nghymru a Lloegr, ac yn gyffredinol maen nhw'n fwy amrywiol o ran ethnigrwydd na llawer o ysgolion eraill. Maen nhw'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymdeithas gan eu bod yn helpu disgyblion i ddod yn ddinasyddion da gydag egwyddorion moesol clir i arwain eu bywydau, a thrwy hynny helpu i ddatblygu'r rhwydwaith o gysylltiadau yn y gymdeithas. Dylai polisi'r llywodraeth yn y dyfodol



sicrhau fod y bobl dlotaf yn cael mynediad at addysg o ansawdd uchel a bod gan rieni Catholig ddewis o ddifrif i addysgu eu plant mewn ysgolion Catholig. **Sut bydd ymgeiswyr yn eich etholaeth yn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer y plant tlotaf? A fyddan nhw'n cefnogi dewis rhieni ar gyfer addysg sy'n seiliedig ar ffydd?**

Meithrin cymunedau

Fel bodau dynol rydym yn rhannu dynoliaeth gyffredin ac yn aelodau o deulu dynol unigol. Mae gennym gysylltiadau priodol â'n teuluoedd a'n cymunedau ein hunain, ond rydym yn cael ein galw bob amser gan yr Efengyl i undod ehangach gydag eraill, ac i helpu i feithrin cymdeithas sy'n seiliedig ar gariad a chyfiawnder, lle mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y lefel fwyaf priodol (boed hynny'n lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol). Mae egwyddorion undod a sybsidiaredd yn ein cynorthwyo wrth feddwl am ddyfodol Ewrop. **Ble mae eich ymgeiswyr yn sefyll wrth amddiffyn y gwerthoedd hyn yn y ddadl ynglŷn â sefydliadau Ewrop?**

Yn achos rhai cymunedau, mae llawer o ffactorau yn gwneud bywyd yn fwy anodd, gan gynnwys cynnydd mewn anghydraddoldeb, mwy o unigrwydd i lawer o bobl hŷn, ansicrwydd ynghylch swyddi a gwasanaethau cymunedol dan ormod o bwysau. Dim ond dinasyddion gweithgar sy'n gallu meithrin cymunedau. Ni ellir ei adael i wleidyddion neu'r llywodraeth yn unig. **Ble mae eich ymgeiswyr yn sefyll ar rôl y sector gwirfoddol, a sut y gellir gwella ei waith?**

Mae gan y sector preifat rôl hanfodol, hefyd. Dylai busnesau weld eu hunain fel rhai sy'n gwasanaethu'r gymdeithas, yn datrys problemau ac yn bodloni anghenion. Mae economi'r farchnad yn bodoli i wasanaethu dynoliaeth. Nid unedau economaidd i gael eu hecsbloetio yw pobl. Dylid parchu urddas gwaith bob amser. **A yw eich ymgeiswyr yn cefnogi cyflog byw a sector preifat ffyniannus sy'n ymrwymedig i gyflog teg ac urddas gwaith dynol?**

Mae trais a gwrthdaro wedi arwain at ddadleoli pobl ar raddfa enfawr, gyda llawer ohonyn nhw'n ceisio lloches. Mae yna hefyd weithwyr a myfyrwyr o dramor sy'n cyfrannu llawer at les cyffredin ein gwlad. Yn wir, mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n ymgartrefu yn y wlad hon yn dod o hyd i waith er mwyn magu eu teuluoedd a chyfrannu at les y gymdeithas. Mae mewnfudo yn fater emosiynol iawn ac mae angen i bob gwlad gael polisi i reoli mewnfudo, yn ogystal ag ymrwymiad cadarnhaol i bolisiau sy'n hwyluso integreiddio mewnfudwyr i brif ffrwd cymdeithas. Mae perygl mawr beio mewnfudwyr am broblemau cymdeithas. Rydym yn cefnogi polisiau sy'n rheoleiddio mewnfudo'n deg a chynnal hawliau dynol pawb, gan gydnabod hawliau, urddas a diogelwch ffoaduriaid a mudwyr. **Ble mae eich ymgeiswyr yn sefyll ar faterion lloches a mewnfudo?**

Yn y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld cynnydd dramatig mewn eithafiaeth dreisgar ac yn erledigaeth pobl ar sail eu credoau crefyddol. Mae llawer wedi dioddef trais ofnadwy. Mae'r gydnabyddiaeth a'r parch a ddangosir at gred crefyddol bellach yn fater hanfodol mewn llawer o gymdeithasau, gan gynnwys ein cymdeithas ni ein hunain. Mae Catholigion yn ceisio adnabod arwyddion o ddaioni Duw ym mhob man, hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth, amddiffyn hawliau sylfaenol a rhyddid pawb, gan gynnwys yr hawl i arfer eu crefydd, yn breifat ac yn gyhoeddus, a'r ddyletswydd i ymdrechu i gyfrannu at les cyffredinol pawb. **Ble mae eich ymgeiswyr sefyll ar y materion**



hyn o ryddid crefyddol, parch at ein gilydd a rôl ffydd yn Nuw yn y Brydain gyfoes, ac ar amddiffyn hawliau dynol sylfaenol a hyrwyddo rhyddid crefyddol dramor?

Gofalu am y byd

Mae Duw wedi rhoi byd da i ni fyw ynnddo a digonedd o roddion i ni eu stiwardio. Mae rhoddion o'r fath wedi eu dosbarthu'n anwastad ar draws y byd. Mae gagendor mawr rhwng y cyfoethog a'r tlawd. Nid ni yw perchnogion y nwyddau hyn, ond eu ceidwaid yn hytrach, ac fe ddylen nhw fod er budd pawb. Fel aelodau o un teulu dynol, mae dyletswydd ar wledydd cyfoethocach, fel ein gwlad ni, i gynorthwyo datblygiad y gwledydd tlotach. **Beth yw barn eich ymgeiswyr ar gymorth a datblygu tramor?**

Rydym yn gwybod bod gofalu am y blaned yn cynnwys malio am yr amgylchedd a gwarchod bywoliaeth y bobl dlotaf yn y byd. **Beth yw barn eich ymgeiswyr ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chefnogi datblygu cynaliadwy?**

Casgliad

Fel dilynwyr Crist, rydym yn gweithio gydag ef i adnewyddu wyneb y ddaear. Mae hyn yn dechrau gyda'n cyfarfyddiad personol gydag ef bob dydd drwy weddi a'r sacramentau. Rydym yn cael ein galw i fyw ei ddysgeidiaeth drwy garu ein cymydog o ddifrif lle bynnag y bo; yn ein cartrefi, yn ein gweithleoedd, yn ein plwyfi ac yn y cymunedau ehangach yr ydym yn rhan ohonyn nhw. Fel ei ddisgyblion, rydym yn chwilio am drugaredd, tosturi a chyfiawnder ym mhopeth rydym yn ei ddweud ac yn ei wneud, ac yn herio pan fydd y rhain yn absennol yn ein byd. Ynghyd â'r wladwriaeth a gwleidyddion, rydym yn gyfrifol am y math o gymdeithas yr ydym yn ei meithrin. Dyna pam mae ein gweithredoedd yn bwysicach na'n barn.

Mae gwleidyddiaeth yn alwedigaeth hanfodol ac angenrheidiol. Mae'n cludo cyfrifoldebau pwysig nid yn unig ar gyfer penderfyniadau polisi, ond hefyd ar gyfer llunio gobeithion a dyheadau pobl. Gall arweinwyr gwleidyddol ddewis apelio at ein synnwyr o obaith neu o ofn, at ein dyheadau i ofalu am bobl eraill neu amdanom ni ein hunain, ac at ein hymdeimlad o undod neu at ein hunanoldeb.

Rydym yn disgwyl i wleidyddion fod yn ymrwymedig i les pawb. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb hefyd i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Mae'n bwysig ein bod yn pleidleisio. Mae'n ddyletswydd sy'n tarddu o'r fraint o fyw mewn cymdeithas ddemocrataidd. Wrth benderfynu sut rydym yn pleidleisio, y cwestiwn ar gyfer pob un ohonom yw: **Sut, yng ngoleuni'r Efengyl, y gall fy mhleidlais wasanaethu lles pawb yn y ffordd orau?**

Cyn bwrw eich pleidlais, efallai yr hoffech ddefnyddio'r weddi a ganlyn:

“Arglwydd, rho i ni ddoethineb fel y gallwn gerdded gydag uniondeb, gwarchod llwybr cyfiawnder a gwybod am ddiogelwch dy ofal cariadus dros bawb”.

Gyda'n dymuniadau gorau un

+ Vincent Nichols
Yr Cardinal Vincent Nichols
Llywydd

+ Peter
Yr Archesgob Peter Smith
Is-lywydd